

Cemeg

Argymhellir y dylid fod wedi ennill Gradd C o leiaf yn yr arholiad TGAU Gwyddoniaeth Dwyradd. Hefyd, mae o leiaf gradd 'C' mewn Mathemateg TGAU yn angenrheidiol. Mae pump uned yn y fanyldeb - 2 uned UG a 3 uned lefel A2.

Cysylltwch â: **Mr A. Pickett**

Strwythur a Chynnwys y Cwrs


Uwch Gyfrannol (UG)	Safon Uwch (U2)
<p>UG Uned 1: Iaith Cemeg, Adeiledd Mater ac Adweithiau Syml</p> <p>Fformiwlâu a hafaliadau</p> <p>Syniadau sylfaenol ynghylch atomau</p> <p>Cyfrifiadau cemegol</p> <p>Bondio</p> <p>Adeileddau solet</p> <p>Y Tabl Cofnodol</p> <p>Ecwilibria syml ac adweithiau asid-bas</p>	<p>A2 Uned 3: Cemeg Ffisegol ac Anorganig</p> <p>Rhydocs a photensial electrod safonol</p> <p>Adweithiau rhydocs</p> <p>Cemeg y bloc-p</p> <p>Cemeg y metelau trosiannol bloc-d</p> <p>Cineteg gemegol</p> <p>Newidiadau enthalpy ar gyfer solidau a hydoddiannau</p> <p>Entropi a dichonoldeb adweithiau</p> <p>Cysonion ecwilibriwm - Ecwilibria Asid-Bas</p>
<p>UG Uned 2: Egni, Cyfradd a chemeg cyfansoddion carbon</p> <p>Thermocemeg</p> <p>Cyfraddau adweithio</p> <p>Effaith ehangach cemeg</p> <p>Cyfansoddion organig</p> <p>Hydrocarbonau</p> <p>Halogenoalcanau</p> <p>Alcoholau ac asidau carbocsilig</p> <p>Dadansoddi cyfrannol</p>	<p>A2 Uned 4: Cemeg Organig a dadansoddi</p> <p>Stereoisomeredd</p> <p>Aromatigedd</p> <p>Alcoholau a ffenolau</p> <p>Aldehydau a chetonau</p> <p>Asidau carbocsilig a'u deilliadau</p> <p>Aminau</p> <p>Asidau amino, peptidau a phroteinau</p> <p>Synthesis organig a dadansoddi</p>
<p>Gwaith Ymarferol:</p> <p>Yn unedau 1 a 2 bydd gwaith ymarferol yn cael ei gweithredu a'l nodi yn llyfr ymarferol. Bydd y gwaith ymarferol yn cael ei hasesu trwy cwestiynau arholiad yn unedau 1 a 2.</p>	<p>A2 Uned 5: Arholiad Ymarferol</p> <p>Mae'r uned yma yn rhoi cyfle i'r dysgwyr arddangos eu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth yn ôl technegau ymarferol a'u gallu i ddadansoddi a gwerthuso data arbrofol. Mae'r arholiad ymarferol yn cynnwys dau tasg i'w cwblhau yn unigol mewn amodau rheoledig</p>
<p>UG = 2 uned (a astudiwyd ym M1.12) gydag U2 = 3 uned (a astudiwyd ym M1.13) yn gyfartal i Lefel A llawn</p>	

Asesiad:

Blwyddyn 12 UG (2 Uned)	Blwyddyn 13 A2 (3 Uned)
UG Uned 1: Arholiad ysgrifenedig: 1½ awr 20% o'r cymhwyster	A2 Uned 3: Arholiad ysgrifenedig: 1 ¼ awr 25% o'r cymhwyster
UG Uned 2: Arholiad ysgrifenedig: 1½ awr 20% o'r cymhwyster	A2 Uned 4: Arholiad ysgrifenedig: 1¼ awr 25% o'r cymhwyster
	A2 Uned 5: Arholiad Ymarferol 10% o'r cymhwyster

* Bydd Asesiad Synoptig o fewn papurau uned A2. Mae angen i ymgeiswyr wneud a defnyddio cysylltiadau o fewn y pwnc yn ogystal â rhwng y gwahanol feysydd o fewn y pwnc

Cemeg



Dilyniant 18+

Cymhwyster sy'n hollol dderbyniol ar gyfer mynediad i brifysgol ac addysg uwch.
Dewis eang o bosibiliadau gyrfaol yn cynnwys:
Diwydiant, Biocemeg, Deintyddiaeth, Meddygaeth, Fferylliaeth, Dysgu, Y Gyfraith,
Ffisiotherapi, Ymchwil, Milfeddygaeth, Peirianeg Cemegol a Mecanyddol
Gwyddoniaeth Fforensig a llawer mwy.

Cemeg